# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENSIYNAU**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD IAU, 18FED IONAWR, 2018**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai, Swyddfeydd y Cyngor,**

**Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 10 Ionawr 2018)

# PWYLLGOR PENSIYNAU

## AELODAETH (7)

## Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

Aled Wyn Jones
Peter Read
Simon Glyn
Peredur Jenkins

## Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
John Pughe Roberts

## Llaf / Rhydd (1)

Y Cynghorydd
Stephen W. Churchman

## Aelodau Cyfetholedig

| | |
|---|---|
| Cynghorydd David Cowans | Cyngor Bwrdeistref Conwy |
| Cynghorydd John Griffith | Cyngor Môn |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 9fed o Dachwedd 2017 fel rhai cywir

## 5. BUDDSODDI CYFRIFOL

Eitem ar lafar ar gasgliadau consensws (aelodau'r Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiwn Lleol o'r sesiwn anffurfiol yn y bore gydag ymgynghorwyr y Gronfa) ynghylch ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG), er mwyn cyfarwyddo Cadeirydd y Pwyllgor a swyddogion y Gronfa, i'w galluogi i gynrychioli safbwynt Cronfa Gwynedd mewn trafodaethau perthnasol rhwng Partneriaeth Pensiwn Cymru a'r Gweithredwr ar sefydlu is-gronfeydd buddsoddi cyfun priodol

## 6. PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU

Derbyn diweddariad ar lafar gan y Pennaeth Cyllid ar ddatblygiadau diweddar

**PWYLLGOR PENSIYNAU 09.11.2017**

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr: Stephen Churchman (Cadeirydd), David Cowans (Cyngor Bwrdeistref Conwy), Simon Glyn, John Griffith (Cyngor Mon), Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Peter Read, John Pughe Roberts a Osian Richards (Arsylwi)

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Nicolas Hopkins (Rheolwr Pensiynau ) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar yr 29 o Fedi 2017 fel rhai cywir.

**5. CYSONI ISAFSWM PENSIYNAU GWARANTEDIG (IPG)**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo cyfanswm costau ychwanegol i'r Uned Weinyddu Pensiynau barhau gyda'u gwaith i gysoni Isafswm Pensiynau Gwarantedig (IPG) aelodau unigol yn unol â CThEM (Cyllid a Thollau EM). Adroddwyd bod oediad yn ymateb y CThEM i ymholiadau a gyda bwriad gan y CThEM i gau'r holl waith cysoni 31.12.18, nodwyd y byddai ymestyn cyfnod y tîm prosiect i ymateb i'r gwaith ychwanegol yn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau o fewn yr amserlen.

Amlygwyd bod Awdurdodau eraill yn defnyddio cwmnïau allanol a bod cyfle yma yng Ngwynedd i barhau i fanteisio ar arbenigedd yr adnoddau mewnol ac osgoi defnyddio ymgynghorwyr allanol, costus.

Eglurwyd wrth yr Aelodau beth oedd y rhesymau dros y gwaith ychwanegol a bod cysoni isafswm pensiynau gwarantedig yn waith technegol iawn gyda'r angen i sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol, bod anghysondebau wedi eu cywiro a bod risgiau wedi eu datrys.

Cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r gwariant ychwanegol a diolchwyd i'r tîm prosiect am eu gwaith trylwyr

**PENDERFYNWYD cymeradwyo £50,994 o gyllideb ychwanegol i'r Uned Weinyddu Pensiynau, er mwyn ariannu parhad y tîm tan 31 Rhagfyr 2018 (dyddiad terfyn CThEM)**

**6. BWRDD PENSIWN – AD-DALU TREULIAU, TAL A LWFANSAU**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried talu lwfans i Gynrychiolwyr Cyflogwyr a Chynrychiolwyr Aelodau'r Cynllun am fynychu cyfarfodydd a sesiynau hyfforddi'r Bwrdd Pensiwn. Nodwyd y byddai cyfraddau'r lwfans yn unol â'r cyfraddau a osodwyd ar gyfer Aelodau Annibynnol Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd ac Aelod Lleyg Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Cyngor Gwynedd. Amlygwyd y byddai'r costau yn cael eu codi ar y Gronfa Bensiwn a bod grym rheolaeth cyllideb y Gronfa gyda'r Pwyllgor Pensiynau.

Mewn ymateb, nodwyd bod yr argymhelliad yn un teg ac y byddai talu lwfans yn adlewyrchu cyfraniad gwerthfawr a gwaith da'r Bwrdd Pensiwn.

**PENDERFYNWYD**

i. **Talu lwfans i Gynrychiolwyr Cyflogwyr a Chynrychiolwyr Aelodau'r Cynllun am fynychu cyfarfodydd yn ymwneud â busnes y Bwrdd Pensiwn (gan gynnwys mynychu hyfforddiant) ar y cyfraddau gosodwyd ar gyfer aelodau annibynnol o Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd a'r aelod lleyg o Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu Cyngor Gwynedd.**

ii. **Ni fydd unrhyw lwfans yn cael ei dalu os yw'r aelod o'r Bwrdd yn cyflawni'r rôl hon o fewn eu diwrnod gwaith arferol heb ostyngiad mewn tâl. Ar gyfer Cynghorwyr sydd wedi'u penodi i'r Bwrdd, byddai'r rôl yn rhan o wahanol benodiadau'r cyngor y maen nhw'n eu cymryd. Felly, mae'n fater i'r Cyngor penodol sy'n gwneud y penodiad i ystyried sut y dylid ymdrin â chyfrifoldebau aelodaeth fel rhan o'u Cynllun Lwfans Aelodau perthnasol.**

iii. **Bydd gan bob aelod o'r Bwrdd Pensiwn hawl i hawlio lwfansau teithio a chynhaliaeth ar gyfraddau gosodwyd i aelodau annibynnol Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd a'r aelod lleyg o Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu Cyngor Gwynedd. Bydd yr holl gostau (lwfans am fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn, lle'n briodol, ynghyd â lwfansau teithio a chynhaliaeth) yn cael eu codi ar y Gronfa Bensiwn.**

**7. CAU ALLAN Y WASG AR CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD**

**Cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny). Mae'r Adroddiad Dethol Gweithredwr yn darparu crynodeb i'r ymarferiad caffael i benodi gweithredwr ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru a gyflawnwyd gan yr wyth cronfa bensiwn yng Nghymru. Mae'r wybodaeth yma yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif am gryfderau a gwendidau cymharol yr ymgeiswyr a'u cynigion a'r sgoriau a arfarnwyd i'r ymgeiswyr.**

**8. ARGYMHELLIAD CAFFAEL Y BARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth y Cyllid yn adrodd ar y cynnydd a wnaed gyda chaffael gwasanaethau gweithredwr ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru i reoli asedau buddsoddi'r wyth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru ar sail gydweithredol. Amlygwyd y byddai yn bidiwr llwyddiannus yn cael ei argymell i Gydbwyllgor Llywodraethu

Partneriaeth Pensiwn Cymru ac y byddai gofyn i'r wyth cynllun pensiwn gadarnhau drwy eu proses gymeradwyo lleol, eu bod yn ymrwymo i'r contract gyda'r Gweithredwr.

Adroddwyd y byddai enw'r bidiwr llwyddiannus yn cael ei gyhoeddi unwaith y bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn cadarnhau'r penodiad yn swyddogol.

Cynigwyd ac eiliwyd i dderbyn argymhelliad 1 a 3 o'r adroddiad (argymhelliad 2 wedi ei ddileu oherwydd yr angen am eglurhad pellach).

Derbyniwyd bod y broses caffael wedi bod yn un hir a chymhleth, ond yn broses hanfodol a gwerthfawr.

**PENDERFYNWYD**

- **penodi Bidiwr 1 fel y bidiwr llwyddiannus ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru (rhif cyfeirnod OJEU 2017/S 050-092093), ac**
- **yn amodol ar gwblhau'r cyfnod segur ac addasu'r Cytundeb Gweithredwr yn briodol, i symud ymlaen i benodi Bidiwr 1 fel y Gweithredwr dan y Cytundeb Gweithredwr.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben 3:00pm